

WILLIAM MORGAN EVANS (1822-1884) CAERFYRDDIN, A'I DEULU

Richard E. Huws, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Mehefin 2001


Mae enw William Morgan Evans yn un cyfarwydd i bob Bedyddiwr, ac i unrhyw gasglwr sy'n treulio amser yn chwilota mewn siopau llyfrau ail-law. Roedd yn un o argraffwyr a chyhoeddwyd mwyaf toreithiog y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae chwilio am ei gynnyrch yng nghatalog ar-lein Llyfrgell Genedlaethol Cymru, er bod hwnnw am y tro yn anghyflawn am eitemau o'r cyfnod hwnnw, yn olrhain dros 100 o gofnodion i deitlau gwahanol. Syndod o'r mwyaf, felly, yw canfod nad yw Evans wedi ennill ei blwyf yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*, nac yn *Cydymaith i Lenyddiaeth Gymraeg*, er bod cyfeiriad ato yn y gwaith olaf wrth drafod arwyddocâd y newyddiadur *Seren Cymru*.

Pwrpas y nodyn byr hwn yw nid yn gymaint i gloriannu cyfraniad ei wasg, ond i ddarparu cofnod o fywyd un o'n hargraffwyr, cyhoeddwyd a'n newyddiadurwyr pwysicaf sydd, hyd yma, wedi ei esgeuloso gan ein haneswyr a'n llyfryddwyr.

Ganed William Morgan Evans ar 10 Rhagfyr 1822, yn Parsele (Parselau), fferm ym mhlwyf Llanedrin (St. Edrins), tua dwy filltir i'r de-orllewin o bentref Treletert, sir Benfro, yn fab hynaf i George Evans a'i briod Margaret, a oedd yn ôl pob tystiolaeth yn selogion yn Eglwys Fedyddiedig Llangloffan. Fe'i haddysgwyd mewn ysgol leol, cyn gorffen ei addysg ffurfiol yn Hwlfordd, a phan oedd yn ŵr ifanc ugain oed fe'i prentisiwyd fel argraffydd i swyddfa *Seren Gomer* yng Nghaerfyrddin dan berchnogaeth Alice Williams. Ar ôl cwblhau ei brentisiaeth treuliodd Evans, fel yr arferid gwneud gan nifer o'i gyfoedion, gyfnod yn Llundain i fagu profiad pellach cyn dychwelyd i swyddfa *Seren Gomer*. Yno daeth dan ddylanwad Samuel Evans ('*Gomerydd*'; 1793-1856), un o brif newyddiadurwyr Rhyddfrydol ei gyfnod, ac ymhen amser dyrchafwyd William Morgan Evans i swydd rheolwr yr argraffdy.

Mentrodd Evans ar gychwyn busnes argraffu ei hun ar 13 Awst 1851 pan ddechreuodd argraffu a chyhoeddi *Seren Cymru*, o dan ei argraffeb ei hun, a hynny yn ôl pob golwg o swyddfa ei gyflogwraig Alice Williams yn 29, Heol-y-Brenin. Cytunodd *Gomerydd* i'w olygu. Ond ataliwyd cyhoeddi'r papur ymhen pymtheng mis yn Rhagfyr 1852, oherwydd bod y baich ariannol o £200 a ysgwyddai Evans yn ormodol.

Yn dilyn marwolaeth Alice Williams yn 1856 prynwyd ei gwasg gan William Morgan Evans. Un o'i benderfyniadau cyntaf oedd adfer *Seren Cymru* ym mis Rhagfyr 1856 o dan olygyddiaeth newydd J. Emlyn Jones (roedd *Gomerydd* wedi marw ers mis Awst y flwyddyn honno), a'i ailsefydlu fel papur annibynnol. Erbyn Ebrill 1860 roedd Evans wedi symud i



swyddfa newydd yn 120, Heol Awst, ac mae'n rhyfeddol i nodi ei fod ymhen blwyddyn yn cyflogi 16 o weithwyr, cyfanswm oedd yn sylweddol uwch nag argraffdai lleol eraill mwy adnabyddus fel un William Spurrell. Profodd ei fuddsoddiad yn sail gadarn i dŷ argraffu a chyhoeddi lled fentrus fel y tystia nifer o lythyron at ei gyfoedion, ac un a oedd yn sylweddol o ran maint ei gynnyrch. O dan oruchwyliaeth gwahanol aelodau o'r teulu parhaodd y busnes yn ddiwyd hyd at ddiwedd y 1930au. Lleolwyd y swyddfa argraffu mewn nifer o ganolfannau gwahanol yn ystod oes y wasg – yn wreiddiol yn Heol-y-Brenin ac yna yn 120 Heol Awst fel y nodwyd, cyn symud i Heol y Santes Fair ym 1879, i 23, Heol Las yn 1882, i Heol y Neuadd yn 1892 hyd at Medi 1932 pan werthwyd safle'r busnes i gwmni Frank W. Woolworth oedd am agor siop yng Nghaerfyrddin, i Heol Ioan hyd at ddiwedd 1935, ac yn derfynol i 108, Heol Awst.

Ymhlith cyhoeddiadau mwyaf adnabyddus W. Morgan Evans gellir nodi *Hanes Prydain Fawr*, o waith Titus Lewis (1857) a *Geiriadur Beiblaidd a Diwinyddol*, gan John Jones ('*Mathetes*'; 1821-1878) (3 Cyfrol, 1864-1883). Roedd cysylltiad agos iawn rhwng ei gynnyrch ac enwad y Bedyddwyr, a phrofodd yr enwad a'i aelodau yn farchnad sicr i lawer o'i gynnyrch, ac yn

ffynhonnell nifer o'i awduron.

Yn ogystal, bu Evans yn ddiwyd, os braidd yn aflwyddiannus, ym myd cyhoeddi newyddiaduron. Cyfeiriwyd eisoes at ei ran allweddol yn hanes cyhoeddi *Seren Cymru*. Er iddo werthu'r teitl i gwmni cyfyngedig *Seren Cymru Cyf.* yn 1880, ac iddynt hwythau yn eu tro ei drosglwyddo yn eiddo i Undeb Bedyddwyr Cymru yn 1936, fe argraffwyd y papur yn ddi-dor tan 1937 ar beiriannau W. M. Evans a'i Gwmni. Cychwynnodd Evans y *Carmarthen Weekly Reporter* yn 1860 a'i gyhoeddi hyd at 1866, cyn gwerthu'r hawlfraint i Edward Joseph. Bu'n bapur dylanwadol ym mywyd y dref hyd at 1921. Rhoddodd Evans gychwyn hefyd i'r *Carmarthen Express* yn 1873, papur byrhoedlog oedd yn adlewyrchu rhyddfrydiaeth eithafol a radicalaidd y perchennog, ac a gyhoeddwyd hyd at 1878 nes i'w golledion ariannol o dros £1000 orfodi ei dranc.

Ar 31 Mawrth 1860, yng nghapel Seion, San Clêr,

diacon yn ogystal â bod yn un o'r ymddiriedolwyr gwreiddiol.

Bu farw William Morgan Evans yn ei gartref, 23 Heol Las, Caerfyrddin, ar 11 Tachwedd 1884, yn 62 oed yn dilyn salwch blin. Ar ôl ei farwolaeth cydiodd ei weddw yn y gwaith o redeg y busnes, gan barhau traddodiad arwrol merched tref Caerfyrddin, fel y gwnaeth Ann Scott (gweddw John Ross), Hannah White ac Alice Williams o drin peiriannau argraffu yn effeithiol dros ben. Bu Anne Elizabeth Evans farw ar 15 Ionawr 1902, yn 67 oed, a llywiwyd y busnes ar ôl hynny hyd at 1937 gan ei mab, William Carey Evans. Ymddengys iddo arddel enw canol ei dad yn ddiweddarach gan ei alw ei hun yn William Morgan Evans. Bu yntau'n byw yn Royston Court, Glan-yfferi, saith milltir i'r de o Gaerfyrddin, hyd nes ei farw ar 24 Rhagfyr 1965 yn Ysbyty Glangwili yn 96 mlwydd oed. Claddwyd holl aelodau'r teulu nodedig a diwylliedig hwn ym mynwent gyhoeddus Caerfyrddin.



Royston Court, Glan-yfferi, Sir Gaerfyrddin – cartref William Morgan Evans Ieu. (1869–1965).

priododd William Morgan Evans â Miss Anne Williams, ail ferch i'r Parchg Benjamin Williams (1800-1872), gweinidog gyda'r Bedyddwyr ym Maes-y-berllan (Brycheiniog), Moorfields, (Llundain) a Phen-bre, ger Llanelli. Ganwyd iddynt un mab, William Carey Evans, ar 23 Awst 1869.

Roedd ymlyniad Evans i'w enwad crefyddol yn gryf. Fe'i bedyddiwyd yn Eglwys y Tabernacl, Caerfyrddin, lle bu'n aelod ffyddlon ac yn ddiakon am nifer o flynyddoedd. Ond pan grybwyllwyd cychwyn achos Saesneg yn 1868, a'i agor ymhen dwy flynedd mewn adeilad ysbennydd yn Heol Awst a gynlluniwyd gan George Morgan, pensaer lleol, trosglwyddodd Evans ei deyrngarwch i'r capel newydd, lle gwasanaethodd eilwaith fel

AR WERTH

Verey, David: *Shell Guide to Mid Wales* (siaced lwch gan John Piper), 1960. Prin: £27.50.

Davies, Mervyn: *The Story of Llangranog*: £10.

Lewis, D. Craionog: *Hanes Phwyf Defynog* (cyflwr bregus): £5.

Storiau am Annibynwyr (ysgythriadau gwych gan John Petts): £7.50.

Cecile O'Rahilly: *Ireland & Wales*, Llundain, 1924: £12.50.

Lewis, Min: *Laugharne & Dylan Thomas* (fel newydd): £45.

Bowen & Gresham: *History of Merioneth*, Cyf 1. Dolgellau, 1967: £55.

Clydiant yn ychwanegol. Cysyllter ar (01974) 831582.

Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Ceredigion SY25 6AL.